**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Mawrth 2015 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**PRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| R J Dutton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Millington (Rheolwr Ardal); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); B Millington (Dirprwy Reolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| Y Cynghorydd | |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 15 RHAGFYR 2014

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2014 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 16.1 Gweithredu Diwydiannol – rhoddodd y DBST wybod i'r aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad ar bensiynau. Ymgynghorwyd ynghylch dau opsiwn. Roedd Cynllun A yr un fath â'r cynllun i'w gyflwyno yn Lloegr, ac roedd Cynllun B yn cynnig telerau mwy hael o ran ymddeoliad cynnar. Cynllun B oedd yn cael ei ffafrio, ac roedd y Gweinidog wedi cadarnhau mai'r cynllun hwn fydd yn cael ei fabwysiadu ar gyfer diffoddwyr tân yng Nghymru o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

3.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Rhagfyr 2014 a Mawrth 2015 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 ALLDRO AMCANOL 2014-2015

6.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifir am flwyddyn ariannol 2014-15. Nodwyd mai'r rhagolygon cyfredol oedd y byddai oddeutu £143,964 o danwariant.

6.2 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol fis Hydref 2014 cafodd yr aelodau wybod am y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio, a chytunwyd mai doeth fyddai neilltuo £300k mewn cronfa wrth gefn i ymorol am unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, gofynnir i'r aelodau erbyn hyn ystyried neilltuo unrhyw danwariant sy'n weddill i ymorol am unrhyw gostau pellach, sy'n anhysbys ar hyn o bryd ac sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Nodwyd bod y DBST yn cynrychioli'r tri ATA yng Nghymru ar fwrdd y prosiect, a bydd yr aelodau'n cael gwybod am y datblygiadau'n rheolaidd .

6.3 Dywedodd y Trysorydd y bydd ariannu gwariant cyfalaf o'r gyllideb refeniw yn lleihau'r costau dyledion yn y dyfodol ac felly roedd yn argymell neilltuo £312k ar gyfer hyn.

6.4 I ateb cwestiwn ynglŷn â'r gorwariant o £29k ar hyfforddiant i recriwtiaid newydd, cadarnhawyd bod mwy o ddiffoddwyr tân na'r disgwyl wedi cael eu recriwtio yn dilyn yr ymgyrch recriwtio lwyddiannus, ac felly roedd cost yr hyfforddiant yn uwch. Cadarnhawyd hefyd fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn cael ei roi yn fewnol ond y bydd recriwtiaid yn cael eu hanfon at ddarparwr arall pan fo hynny'n cael ei ystyried yn addas ac yn fwy effeithlon.

6.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) neilltuo £312k i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn lleihau costau dyledion yn y dyfodol;**

**(ii) cytuno i neilltuo unrhyw danwariant sy'n weddill i ymorol am gostau trosglwyddo cysylltiadau.**

7 ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

7.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r aelodau am effaith y gostyngiad yn y grant Lleihau Risg Cymunedol ar archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, ac yn ceisio cymeradwyaeth i leihau'r targed o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

7.2 Roedd yr aelodau wedi cael gwybod eisoes am y gostyngiad yn yr arian grant Lleihau Risg Cymunedol. Bu swyddogion yn gweithio gyda'r ddau GTA arall yng Nghymru er mwyn gweld pa feysydd gwaith y gellid parhau i'w hariannu gyda'r grant llai, a nodwyd bod yr aelodau eisiau i brosiect y Ffenics barhau, yn ogystal â chadw'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, ond yn llai o faint. Maes gwaith arall yr oedd yr Aelodau'n ystyried ei bod yn hanfodol ei fod yn ei barhau yw'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, yn enwedig i aelodau mwy bregus y gymuned a'r rhai sydd angen cyfarpar arbenigol. Ond cydnabuwyd na fydd modd cyrraedd targed cyfredol yr Awdurdod o gynnal 30,000 o archwiliadau diogelwch tân y flwyddyn, a gofynnwyd i'r aelodau ystyried lleihau'r targed i 20,000 y flwyddyn.

7.3 Roedd yr aelodau'n falch fod dros 200,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi cael eu cynnal ers 2007 ac roeddent yn mynegi siom fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gostwng y grant Lleihau Risg Cymunedol. Nodwyd fod gan ATA Gogledd Cymru yn ystod 2013/14 ganran llawer llai yn y categori 'tanau mewn anheddau lle nad oedd larwm mwg' o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd yr aelodau'n pryderu am y syniad fod llai o larymau mwg ar gael i amddiffyn pobl Gogledd Cymru oherwydd y gostyngiad yn yr arian grant Lleihau Risg Cymunedol.

7.4 Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig fod y Gweinidog yn sylweddoli effaith lleihau'r arian grant a'i fod yn cydnabod bod y grant yn ffordd o 'wario i arbed' a bod yr elfen ataliol o brosiect y Ffenics, y tîm lleihau llosgi bwriadol a'r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi arbed costau i asiantaethau eraill dros y blynyddoedd. Teimlai'r aelodau hefyd fod angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol mai oherwydd gostyngiad Llywodraeth Cymru yn yr arian y byddai llai o larymau mwg ar gael i gartrefi yng Ngogledd Cymru. Dywedodd y Clerc y byddai'r risg i ddiogelwch yn gallu cael ei gynnwys yn y gofrestr risgiau strategol fel ffordd o ddangos y lleihad yn y cydnerthedd oherwydd y toriadau i gyllid.

7.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r effeithiau a ganfuwyd oherwydd y gostyngiad yn yr arian grant lleihau risg cymunedol, o ran cyfalaf a refeniw;**

**(ii) cytuno ar darged diwygiedig o 20,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref y flwyddyn.**

Ataliodd y Cyng. McGuill ei bleidlais ynghylch yr uchod.

8 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

8.1 Cyflwynwyd y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rholi'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2015/16 i'r aelodau. Esboniodd y Trysorydd fod gan y Pwyllgor Archwilio bŵer wedi ei ddirprwyo iddo i adolygu'r dogfennau hyn yn fanylach a gwnaed hyn yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2015.

8.2 Bu'r Pwyllgor Archwilio yn trafod y 'Repos' a ychwanegwyd i'r rhestr o bartïon i gontract yn dilyn cyngor gan Ymgynghorwyr y Trysorlys er mwyn amrywio'r portffolio buddsoddiadau. Ond roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi gofyn am gael ragor o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio cyn argymell defnyddio Repos i'r Awdurdod Tân ac Achub.

8.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r pedair elfen allweddol yn yr adroddiad a'r argymhellion sydd ynddynt**

**(i) rhestr o'r dangosyddion darbodus sy'n ofynnol yn ôl a Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;**

**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn o ran benthyciadau tymor byr a thymor hir ar gyfer 2015/16 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys;**

**(iii) y strategaeth i'w dilyn o ran buddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**

**(iv) Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

9 CYNLLUN I LEIHAU RISG A GWELLA 2015-16

9.1 Cyflwynodd DBST y Cynllun drafft i Leihau Risg a Gwella 2015-16 i'r aelodau er mwyn iddynt ei gymeradwyo cyn iddo gael ei gyhoeddi.

9.2 Bu'r aelodau'n rhan o'r gwaith paratoi yn ystod 2014 gan edrych ar risgiau a llunio amcanion, ac ymgynghorwyd ynghylch y rhain yn gyhoeddus a'u defnyddio i ddiben gosod y gyllideb. Cafodd canlyniad yr ymgynghoriad ei drafod yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 2 Chwefror 2015 ac roedd yr aelodau wedi cadarnhau'r amcanion lefel uchel ar gyfer 2015-16. Yn dilyn y penderfyniad blaenorol i leihau targed yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref i 20,000, nodwyd y byddai angen newid unrhyw gyfeiriad yn y Cynllun at nifer yr archwiliadau yn unol â hynny.

9.3 Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau y byddai angen i Lywodraeth Cymru ailystyried y term 'cynllun gwella' o bosibl oherwydd y lleihad yn yr adnoddau. Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am y ddogfen fanwl a rhagorol.

9.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo drafft terfynol y Cynllun i Leihau Risg a Gwella 2015-16 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2015 YN AMODOL AR newid y targed blynyddol i gynnal 20,000 y flwyddyn o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.**

10 Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL

10.1 Cafodd yr Aelodau wybod am gynlluniau i gyflwyno polisi rheoli risg strategol newydd a chofrestr risgiau corfforaethol.

10.2 Roedd adolygiad archwilio mewnol o drefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod wedi canfod angen i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol er mwyn gwreiddio rheoli risg yn fwy pendant yn ei brosesau penderfynu. Felly datblygwyd polisi newydd ar gyfer rheoli risg a chofrestr risgiau er mwyn canfod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol i amcanion strategol yr Awdurdod.

10.3 Nodwyd na fyddai'n briodol nac yn ymarferol cyflwyno holl gynnwys y gofrestr risgiau strategol i gyfarfodydd agored o'r Awdurdod oherwydd natur y gofrestr. Felly, byddai adroddiad i roi trosolwg cryno yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac y bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd yn cael eu gwahodd i weld a thrafod y cynnwys yn fanwl gyda'r swyddogion cyn y cyfarfodydd perthnasol,

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wneir wrth ddatblygu a gweithredu polisi newydd ar gyfer rheoli risgiau strategol, ynghyd â gweithdrefnau, canllawiau a chofrestr risgiau wedi'u sgorio.**

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

11.1 Cyflwynodd y Clerc adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio i'r aelodau.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

12 DATGANIAD POLISI CYFLOGAU

12.1 Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i'r datganiad polisi cyflogau ar gyfer 2015/16.

12.2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio datganiad polisi cyflogau yn flynyddol dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Nodwyd bod y datganiad wedi cael ei ddiwygio ar gyfer 2015/16 er mwyn cydymffurfio â'r nodiadau cyfarwyddyd diwygiedig yn 'Atebolrwydd o ran Cyflogau mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru'.

12.3 Rhoddodd y DBST wybod i'r aelodau fod cydweithio wedi digwydd gyda'r ddau ATA arall yng Nghymru wrth baratoi'r datganiad, ac na fu unrhyw newidiadau yn y fethodoleg ar gyfer gwerthuso cyflogau, dim ond newidiadau i'r cyflwyniad.

12.4 I ateb cwestiwn gan un o'r aelodau ynglŷn â chyflog i brentisiaid, nodwyd nad yw'r Gwasanaeth yn cyflogi prentisiaid ar ddyletswyddau gweithredol ar hyn o bryd ond pan sefydlir cynllun prentisiaethau bydd y cyflog yn unol â'r raddfa i hyfforddeion. Mae'r prentisiaid sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd mewn swyddi anweithredol ac ar raddfa gyflogau Cyd-gyngor yr NJC.

12.5 I ateb cwestiwn gan aelod ynglŷn â geiriad paragraff 4.7 o'r datganiad polisi ynghylch pecyn taliad diswyddo, '*….Awdurdod Tân llawn yn cael cynnig pleidleisio cyn i unrhyw becyn taliad diswyddo gael ei gymeradwyo ar gyfer prif swyddogion',* cadarnhaodd y swyddogion y byddant yn gwirio cywirdeb y geiriad yn ôl y ddogfen gyfarwyddyd genedlaethol. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod llawn gytuno ar unrhyw becyn taliad diswyddo, nid dim ond cael y cyfle i bleidleisio arno.

12.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad polisi cyflogau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, sef 2015/16, yn ddibynnol ar gael goleuni ar eiriad paragraff 4.7.**

13 COFNODION CYFARFODYDD

13.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd canlynol eu cyflwyno er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2015
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2015
- Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2015.

13.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

RHAN II - Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes ganlynol(eitemau busnes canlynol) yn cael ei hystyried oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

Cyn symud ymlaen at yr eitemau ar yr agenda i'w trafod dan ran II, rhoddodd y PST wybod i'r aelodau y byddai Linda Roberts, Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes, yn ymddeol o GTAGC ar 16 Ebrill 2015. Talodd y PST deyrnged i'w gwaith, ac esboniodd mai Ystafell Reoli GTAGC, dan ei harweiniad a'i chyfarwyddyd hi, oedd y Ganolfan Cyfathrebu ar y Cyd go iawn gyntaf gydag ystafell reoli'r heddlu yn y Deyrnas Unedig yn 2008. Hefyd, roedd gwaith mwy diweddar Ms Roberts ar gynllunio parhad busnes wedi golygu bod y Gwasanaeth wedi gallu delio â chyfnodau o weithredu diwydiannol heb darfu rhyw lawer ar y Gwasanaeth a chymunedau Gogledd Cymru.

Roedd y PST yn dymuno i gofnod gael ei wneud o'i ddiolch iddi hi am ei gwasanaeth canmoladwy. Ategodd y Cadeirydd eiriau'r PST a chytunwyd i anfon llythyr ar ran yr Awdurdod i ddiolch i Ms Roberts.

14 CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH: GWASANAETHAU ARIANNOL

14.1 Gadawodd y Trysorydd a Sandra Forrest y cyfarfod tra'r oedd yr adroddiad hwn yn cael ei drafod.

14.2 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo adnewyddu'r cytundebau lefel gwasanaeth rhwng ATAGC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol ac i Mr Ken Finch i fod yn Drysorydd penodedig i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

14.3 Nodwyd y byddai'r cytundebau lefel gwasanaeth yn rhedeg rhwng 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2020. Ond byddai cymal yn cael ei gynnwys yn y cytundeb i roi'r opsiwn i'r naill ochr a'r llall dynnu allan o'r cytundeb os bydd llywodraeth leol yn cael ei ad-drefnu yng Nghymru.

14.4 Mynegodd un aelod bryder fod cost flynyddol y cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei uwchraddio yn unol â'r mynegai pris manwerthu, ac awgrymodd y Clerc fod hynny'n cael ei newid i gael ei uwchraddio yn unol â mynegai prisiau defnyddwyr, a chytunodd yr aelodau â hyn.

14.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo adnewyddu'r cytundebau lefel gwasanaeth rhwng ATAGC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol) a rhwng Mr Finch fel y trysorydd penodedig i'r Awdurdod Tân; a**

**(ii) cytuno bob blwyddyn ar y swm ymgodi ar sail y mynegai prisiau defnyddwyr nid y mynegai prisiau manwerthu.**

15 GWEITHREDU DIWYDIANNOL

15.1 Rhoddodd y PST wybod i'r aelodau fod penderfyniad Llywodraeth Cymru yn dilyn y cyfnod ymgynghori fel y trafodwyd dan 'faterion yn codi' wedi golygu na fu unrhyw gyfnodau pellach o weithredu diwydiannol yng Nghymru. Nodwyd bod rhai materion yn dal heb eu datrys, ac y bydd yr aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

16 YMATEB GAN LYWODRAETH CYMRU YNGHYLCH Y CAIS AM GYMORTH ARIANNOL TUAG AT Y GWEITHREDU DIWYDIANNOL

Yn ystod y drafodaeth, gadawodd y Cynghorwyr W O Thomas ac A Evans y cyfarfod.

16.1 Rhoddodd y Clerc wybod i'r aelodau ei fod, yn dilyn eu cais yng nghyfarfod yr ATA ym mis Hydref, wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i fynegi pryder yr aelodau ynghylch cost cymorth milwrol a gynigwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru ac a dderbyniwyd gan y tri ATA yng Nghymru dan bwysau gan Lywodraeth Cymru. Ond ar ôl cwblhau'r cynlluniau parhad busnes yn derfynol, roedd y PST wedi sylweddoli nad oedd angen cymorth milwrol yng Ngogledd Cymru ac wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru, ond erbyn hynny daethpwyd i gytundeb gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

16.2 Rhoddodd y Clerc wybod i'r aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai unrhyw ad-daliad ar gael ond bod Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r gost gyda'r tri ATA yng Nghymru. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau ei fod yn teimlo y dylid herio'r agwedd gwerth am arian, ac roedd yr aelodau'n cytuno â hyn.

16.3 **PENDERFYNWYD gofyn i Lywodraeth Cymru, ar sail Cymru gyfan, herio'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynglŷn ag agwedd gwerth am arian y cytundeb.**